CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT

YSGOL DEWI SANT
DWY IAITH DYFODOL DISGLAIR
TWO LANGUAGES A BRIGHTER FUTURE

15/09/23

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER



Diolch yn fawr iawn i bawb a fynychodd ein noson agored nos Fawrth. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth! Roedd o'n hyfryd croesawu gwynebau newydd i'r ysgol a dangos beth sydd gan ein hysgol anhygoel i gynnig.

Thank you to everyone who attended our Open Evening on Tuesday. We really appreciate all the support! It was lovely to welcome new faces to the school and show them everything our wonderful school has to offer!



Mae aelodaeth yr Urdd 2023-24 ar agor ac mae croeso mawr i bawb ymuno!

Membership for the Urdd 2023-24 is now open and everyone is welcome to join!

https://www.urdd.cymru/en/join/



Croeso i'r Meithrin!

Croeso cynnes i'r disgyblion Meithrin sydd wedi cychwyn yn swyddogol wythnos yma. Rydym yn edrych ymlaen i ddilyn eich llwyddiannau ar hyd eich taith addysgol yma.

A warm welcome to the learners who have officially joined our Nursery class this week! We look forward to following all your successes on your educational journey here.







Ar gyfer y flwyddyn academaidd yma mae Ysgol Dewi Sant wedi cofrestru ar gyfer y 'MilltirBeunyddiol'. Ymgyrch cenedlaethol yw hi sydd yn annog y dysgwyr i fod yn fwy egniol yngorfforol ac i gymdeithasu hefo'u cyfoedion. Mae'n dull anffurfiol o weithgaredd corfforol, bydd ydysgwyr yn rhedeg neu loncian o gwmpas buarth yr ysgol am 15 munud ar ddechrau'r diwrnod. Mae ymchwil i'r ymgyrch yn awgrymu bod ymroddiad cyson i'r weithgaredd yma nid yn unig yngwella lefelau ffitrwydd a lles emosiynol pobl ifanc, ond hefyd yn gallu arwain at ganolbwyntiogwell ar lawr dosbarth. Bydd y weithgaredd bob bore heblaw dydd Iau ac yn digwydd rhwng 8.40yb-8.55yb ar y buarthmawr wrth ymyl y gampfa. Ar gyfer disgyblion Bl.3-6.

Ysgol Dewi Sant has registered for the 'Daily Mile'. This is a national campaign which encourages learners to become more physically active and to socialise with their peers. It is an informal opportunity at physical activity, learners will jog or run for 15 minutes at the start of the schoolday. Research into this campaign suggests that regular participation in this activity not onlyincreases physical fitness and emotional wellbeing but can also lead to increased concentration in the classroom. This activity will take place every morning apart from Thursdays between 8.40am-8.55am on the yard next to the school gym. For Years 3-6.

LLONGYFARCHIADAU!



Llongyfarchiadau mawr i Tomos am nofio 1 milltir a chwblhau Rookie Lifeguard Aur.

Congratulations to Tomos for swimming 1 mile and accomplishing the Gold Rookie Lifeguard award.

Llongyfarchiadau mawr i Sol am gael ei wobrwyo ar gyfer y gynghrair rygbi'r haf! Da iawn ti!

A big congratulations to Sol for being awarded for the rugby summer league! Well done you!



Diolch yn fawr i Johny am ddod i mewn i wneud gweithdy drymiau 'Profiadau cyntaf' hefo Blwyddyn 3 wythnos yma. Cafodd pawb llawer o hwyl!
Thank you very much to Johny for coming in to do a 'First experiences' drums workshop with Year 3 this week. Everyone really enjoyed themselves!





Bydd cwmni Tempest yma ar Ddydd Iau 19/10/2023 i dynnu lluniau unigol disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6. Os ydych eisiau llun teulu (brodyr a chwiorydd -nid cefndryd), gadewch i ni wybod yn y swyddfa.

Tempest will be here on Thursday 19/10/2023 to take school photos of pupils in Reception to Year 6. If you would like a family photo (siblings not cousins), please contact the school office.

TEMPEST PHOTOGRAPHY



Gofynnwn yn garedig a oes bosib i chi ddychwelyd y ffurflenni casglu data i'r ysgol erbyn Dydd Gwener yr 22ain o Fedi er mwyn i ni adnewyddu eich gwybodaeth ar ein systemau - Diolch.

We politely ask if it would be possible for you to return the data collection forms to school by Friday the 22nd of September so that we can update your information on our systems - Thank you.



Mae prydau ysgol bellach am ddim i bob plentyn yn y dosbarth Derbyn i Flwyddyn 4 beth bynnag fo'r amgylchiadau.

School meals are now free for all children in Reception to Year 4 regardless of circumstances

16.09.23

DIWRNOD OWAIN GLYNDŴR



Mae 16eg of Fedi yn ben-blwydd cyhoeddi Owain Glyndŵr yn Dywysog Cymru yn 1400 ac mae o bellach yn cael ei ddathlu'n flynyddol fel Diwrnod Owain Glyndŵr. Mae'r ddiwrnod yn dathlu arwr cenedlaethol Cymru a oedd y Cymro olaf i ddal y teitl Tywysog Cymru - roedd llawer o bobl yn ei ystyried yn frenin Cymru answyddogol.

September 16th is the anniversary of the proclamation in 1400, of Owain Glyndŵr as Prince of Wales and is now celebrated annually as Owain Glyndŵr Day. It celebrates a national hero of Wales who was the last Welshman to hold the title Prince of Wales - many considered him an unofficial king of Wales.

sir ddinbych denbighshire

UNDERSTANDING YOUR CHILD
SOLIHULL APPROACH

Deall eich plentyn - Cwrs poblogaidd am ddim

Mae hon yn ffordd bleserus, sefydledig sydd wedi hen ennill ei blwyf i ddeall mwy am eich plentyn. Mae 'deall eich plentyn' ar gyfer mamau, tadau, neiniau a theidiau a gofalwyr. Mae rhieni yn aml yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n yn fwy hyderus ac yn cael perthynas well gyda'u plentyn. Datblygwyd y cwrs yn y GIG ynghyd ag ymarferwyr rheng flaen.

Mae'r Cwrs yn cynnwys:

- Ymateb i sut mae'ch plentyn yn teimlo.
- Sut mae eich plentyn yn datblygu.
- Arddulliau gwahanol o fagu plant.
- Sut mae'ch plentyn yn cyfathrebu.
- Deall ymddygiad eich plentyn.
- Cwsg, hunandysgyblaeth a dicter.

Cyngor Sir Ddinbych
cyswllt teulu family link
Denbighshire County Council

Mae sesiynau ar agor i rieni yn ardal Rhyl

Cynhelir sesiynau yn Ysgol LLywelyn 9.15yb –11.15yb bob

Dydd Mawrth yn ystod y tymor gan ddechrau ar:

Medi 19eg am 9 wythnos

Mae'n bwysig mynychu pob sesiwn

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Gweithiwr Cyswllt Teulu

Dani - 07827086586

sir ddinbych denbighshire

UNDERSTANDING YOUR CHILD
SOLIHULL APPROACH

Deall eich plentyn - Cwrs poblogaidd am ddim

Mae hon yn ffordd bleserus, sefydledig sydd wedi hen ennill ei blwyf i ddeall mwy am eich plentyn. Mae 'deall eich plentyn' ar gyfer mamau, tadau, neiniau a theidiau a gofalwyr. Mae rhieni yn aml yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n yn fwy hyderus ac yn cael perthynas well gyda'u plentyn. Datblygwyd y cwrs yn y GIG ynghyd ag ymarferwyr rheng flaen.

Mae'r Cwrs yn cynnwys:

- Ymateb i sut mae'ch plentyn yn teimlo.
- Sut mae eich plentyn yn datblygu.
- Arddulliau gwahanol o fagu plant.
- Sut mae'ch plentyn yn cyfathrebu.
- Deall ymddygiad eich plentyn.
- Cwsg, hunandysgyblaeth a dicter.

Cyngor Sir Ddinbych
cyswllt teulu family link
Denbighshire County Council

Mae sesiynau ar agor i rieni yn ardal Rhyl

Cynhelir sesiynau yn Ysgol LLywelyn 9.15yb –11.15yb bob

Dydd Mawrth yn ystod y tymor gan ddechrau ar:

Medi 19eg am 9 wythnos

Mae'n bwysig mynychu pob sesiwn

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Gweithiwr Cyswllt Teulu

Dani - 07827086586